# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 8 RHAGFYR 2022

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Jina Gwyrfai, Iwan Huws, Elin Hywel, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Dewi Owen, Gwynfor Owen, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Rhys Tudur a Gruffydd Williams.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig).

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:** Y Cynghorydd Menna Jones (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol), Ian Jones (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Arwel Evans (Rheolwr Caffael) a Huw Griffith (Ymgynghorwr Caffael – Cefnogi Busnes).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion) a Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7(A):** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Dysgu Arbennig a Chynhwysiad), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirionnydd), Diane Pritchard-Jones (Swyddog Addysg Ardal Arfon), Gwyn Tudur (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd), Rhys Meredydd Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd) a Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7(B):** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Geraint Evans (Arweinydd Craidd – Cynradd GwE) ac Ellen Williams (Arweinydd Craidd – Uwchradd GwE).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes a Sasha Williams; Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon), Karen Vaughan Jones (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor), Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd) a Roger Vaughan (UCAC).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nododd y Cadeirydd y derbyniwyd cais i drafod mater brys, ond ei bod wedi rhaglennu'r mater i'w drafod yn y cyfarfod anffurfiol ar ddiwedd y cyfarfod hwn.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Hydref, 2022 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD CYNNYDD – CADW'R BUDD YN LLEOL

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol yn dilyn cais yr aelodau i dderbyn diweddariad ar gynnydd y Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol, sef un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun a rhoddodd y swyddogion amlinelliad o gynnwys yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Er bod y crynodeb ar ddiwedd yr adroddiad yn nodi bod cynnydd da wedi'i wneud dros y 5 mlynedd ddiwethaf er mwyn cynyddu'r ganran o wariant y Cyngor sy'n aros yn lleol, sylwyd bod y ganran ond wedi cynyddu 3% dros y cyfnod, a bod y ffigwr i lawr o gymharu â 4 blynedd yn ôl, a llynedd. Nodwyd y deellid y rhwystrau, ond cwestiynwyd llymder yr hunan-arfarnu y tu ôl i hyn.
- Y byddai'n fuddiol pe gellid casglu data ynglŷn â faint o gwmnïau lleol sydd wedi cyflwyno tendr, ond heb fod yn llwyddiannus, a pha adborth a roddwyd i'r cwmnïau hynny, gan adrodd yn ôl i'r pwyllgor ymhen tua blwyddyn.
- Ei bod yn bwysig bod cyrff mawr yn yr ardal, fel Cyngor Gwynedd, yn pwrcasu'n lleol er mwyn helpu'r economi.
- Bod y Preston Model yn hollbwysig, ond na fyddai'n gweithio'n effeithiol yng Ngwynedd gan ei fod yn fodel trefol.
- Mai un o'r pethau pwysicaf y gallwn ei wneud fel Cyngor yw edrych ar sut i alluogi cwmnïau bychan i ddod at ei gilydd a gweithio ar y cyd, a byddai unrhyw fuddsoddiad sy'n mynd i mewn i hynny yn cael ei weld, nid fel cost, ond fel budd cymdeithasol ynddo'i hyn.
- Y dywedir yn aml fod gan Gymru yn ei chyfanrwydd fusnesau bach iawn a busnesau mawr iawn, ond ddim llawer o fusnesau canolig o ran maint, a'r busnesau canolig hynny fyddai'n creu'r budd mwyaf i'n cymunedau ni.
- Ein bod oll yn siomedig â'r canlyniadau hyd yn hyn, ac eisiau gweld ffyrdd ymlaen.

Ar nodyn technegol, a gan gyfeirio at y graff 'Gwariant Lleol Blynyddol' ar dudalen 19 o'r rhaglen, cwestiynwyd cywirdeb y ffigur £43m (cyfalaf a refeniw) ar gyfer 2017/18, gan ei fod yn llai na'r ffigwr £56m (refeniw yn unig). Cadarnhawyd mewn ymateb bod y ffigwr yn wallus.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- O safbwynt llymder yr hunan-arfarnu, bod Gwynedd yn un o'r ychydig gynghorau sy'n mesur y math yma o weithgaredd o ran cadw'r budd yn lleol. Yn y cyflwyniad ar gychwyn yr eitem, roedd son am gyflwyno mesurau eraill, ac roedd hynny'n cyfeirio at y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn fwy na'r ganran leol o ran gwariant yn unig. Roedd y ffigwr yna wedi aros yn eithaf cyson ers nifer o flynyddoedd, ac er bod 1% o newid yn golygu £1.5m o wariant, roedd yn eithaf statig. Nodwyd ymhellach ein bod wedi cyrraedd trothwy erbyn hyn a'i bod yn anodd cynyddu'r ffigwr yn uwch na hynny oherwydd y rhwystrau a'r cyfyngiadau cyfreithiol eithaf llym sydd arnom ar hyn o bryd. Os mai dyna'r sefyllfa, roeddem yn edrych ar fethodoleg ychydig bach yn wahanol bellach i fesur buddion eraill y cytundeb i Wynedd, yn hytrach na'r buddion ariannol yn unig, ac roedd yn brosiect eithaf arloesol i edrych ar y buddion eraill, o ran cyflogaeth, ayb, fyddai'n gallu dod yn sgil y cytundeb.

- Er bod canran y gwariant lleol yn eithaf cyson, bod cyfanswm y gwariant caffael wedi cynyddu o £97m yn 2017/18 i £140m yn 2021/22 o ganlyniad i chwyddiant a'r galw cynyddol am wasanaethau'r Cyngor, yn arbennig ym maes gwasanaethau cymdeithasol.
- O ran cynorthwyo cyflenwyr lleol i allu cystadlu ac ennill contractau, cydnabyddid bod gwariant cyfalaf yn fwy o broblem na gwariant refeniw, ond gan fod prosiectau cyfalaf yn brosiectau mwy ar y cyfan, roedd y cwmnïau sy'n cystadlu ac yn ennill y contractau hynny yn tueddu i fod yn gwmnïau all-sirol. Yn yr achosion hynny, roedd y gwasanaeth yn ceisio gweithio gyda'r prif gontractwr er mwyn gweld beth yw'r cyfleoedd is-gontractio sydd ar gael, ac yn gwneud pob ymdrech i hysbysebu'r cyfleoedd hynny, fel bod busnesau lleol yn gallu ymgeisio i fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi. Er hynny, roedd rhai o'r rhwystrau, megis diffyg awydd, arbenigedd ac adnodd i ymgeisio, yn wir am gyfleoedd is-gontractio hefyd, ac nid oedd cymaint o fusnesau lleol yn cystadlu ac yn ennill rhai o'r is-gontractau hynny ag y dymunid.
- Yn wahanol i'r trefniadau hanesyddol o ran buddion cymdeithasol, bod methodoleg caffael gwerth cymdeithasol yn cyflwyno elfen sgorio, a bod cwmnïau'n derbyn cyfres o fesurau fel bod modd iddyn nhw ddewis pa fuddiannau i'w cyflwyno, er y gallai'r Cyngor hefyd amlygu beth yw ei flaenoriaethau. Nodwyd ymhellach bod y mesurau yn seiliedig ar amcanion y Ddeddf Llesiant, ac yn cynnwys sbectrwm o ddewisiadau megis creu swyddi, yr amgylchedd, yr iaith Gymraeg ayb.
- Y credid bod yr hyblygrwydd yma'n helpu cwmnïau lleol oherwydd bod cwmni sydd wedi'i leoli'n lleol yn fwy tebygol o allu cynnig buddiannau, gan fod rhaid i'r buddiannau hynny ddigwydd o fewn y sir, yn hytrach nag o fewn Cymru neu Brydain. Byddai tendr yn cael ei werthuso, yn amlwg ar sail pris a'r gwasanaeth a gynigir, ond gellid hefyd roi rhwng 10% ac 20% o'r gwerthuso tendr ar sail yr effaith lleol mae'r cwmni'n gael.
- Bod mentrau cymdeithasol yn gyffredinol mewn lle da i gystadlu am dendr ac i gynnig buddiannau lleol, nid yn unig o ran eu natur a'u ffordd o weithio, ond hefyd o ran sut rydym yn caffael a rheoliadau caffael.
- Bod y Cyngor yn dal i ddilyn yr un rheoliadau caffael ers Brexit. Disgwylid cyflwyno rheolau contractau newydd ddiwedd 2023, ond ni chredid y byddai'r rheolau hynny'n sylweddol wahanol i'r rhai presennol, ac eithrio rhai newidiadau technegol, a byddai disgwyl o hyd i ni gynnal cystadleuaeth agored o fewn Prydain efallai, yn hytrach nag ar draws Ewrop fel o'r blaen.
- Bod disgwyl i gynghorau cymuned ddilyn yr un rheoliadau caffael â'r Cyngor hwn, ond efallai nad oedd ganddynt yr arbenigedd na'r adnoddau i gynnal yr un prosesau ag sydd gan y cynghorau sir.
- Er bod y peilot Methodoleg Caffael Gwerth Cymdeithasol wedi cychwyn ers dros flwyddyn bellach, 3 chyfle yn unig a gafwyd i ymarfer y fethodoleg newydd hyd yma, ac roedd y gwasanaeth yn awyddus i gynnwys mesur fframwaith fel rhan o hyn hefyd. Gan hynny, credid ei bod yn gynamserol i wneud asesiad llawn o'r fethodoleg ar hyn o bryd. Hefyd, roedd y gwasanaeth yn gweithio mewn gwagle polisi cenedlaethol ynglŷn â hyn, ac yn awyddus i'r Llywodraeth ddal i fyny â ni a'n goddiweddyd, fel bod modd iddynt osod cyfundrefn bolisi i ni weithio oddi fewn iddi. Dymunid i'r pwyllgor gael cyfle i fynd dan groen y fethodoleg a chraffu canlyniadau'r peilot cyn cymeradwyo unrhyw newid polisi yng Ngwynedd. Ni ellid rhoi amserlen bendant ar gyfer hynny ar hyn o bryd. Ni chredid bod 3 peilot yn sail ddigonol ar gyfer gosod polisi. Roedd angen nifer sylweddol mwy, ond ni ellid cadarnhau faint yn union ar hyn o bryd, gan fod hynny'n ddibynnol ar lwyth gwaith y timau caffael a pha gytundebau sy'n addas i fynd drwy'r fethodoleg.
- Nad oedd y swyddogion yn ymwybodol o gynllun gan y Cyngor i swmp brynu tanwydd ar ran trigolion i'w helpu gyda chostau gwresogi eu tai, ond y byddent yn holi'r Rheolwr Ynni i weld os oes cynllun yn bodoli, neu fwriad i wneud cynllun o'r fath.
- Bod y gwasanaeth yn edrych ar y Model Preston yn reit ofalus a bod y fethodoleg buddion cymdeithasol sy'n cael ei datblygu yng Ngwynedd yn rhannol seiliedig ar y model hynny. Yn amlwg, roedd gan Preston y fantais o fod yn gweithio o fewn cyfundrefn gyfreithiol fymryn gwahanol i Gymru, a debyg hefyd bod yna nifer uwch o gyflenwyr yn yr ardal honno yn gallu cyflenwi.
- Lle fo'n bosib', bod cytundebau yn cael eu torri i lawr i lotiau gwahanol er mwyn ei gwneud yn haws i gyflenwyr lleol gystadlu ar dir mwy gwastad na phetai'n un cytundeb mawr.

- Er y credid bod cadw yn ein hunfan wedi bod yn rhyw elfen o lwyddiant yn yr amgylchiadau presennol, na ddymunid cyfyngu ein huchelgais gwariant lleol i 60%, a bod angen parhau i edrych ar bob mathau o ffyrdd o hwyluso cwmnïau bach ledled y sir.
- Bod yr adroddiad dan sylw yn son am drefniadau caffael yn benodol, ond bod yna ymdrech gan y Cyngor cyfan i gefnogi busnesau lleol, yn arbennig felly yn y maes economi, a bod sut mae cwmnïau bach yn cydweithio ac yn ffurfio cyfundrefn lle mae modd iddynt gystadlu ar y cyd am dendrau yn rhywbeth y mae'r Adran Economi yn benodol yn edrych arno.
- Bod angen i'r gwasanaeth gydweithio gydag adrannau eraill y Cyngor i adnabod cyfleoedd i brynu'n lleol, gan hefyd gysylltu â chwmnïau i'w hysbysu o'r cyfleoedd sydd ar gael.
- Bod y dadansoddiad o'r math o fusnesau sy'n bodoli o fewn y sir y cyfeirir ato dan 'Y Camau Nesaf' yn yr adroddiad wedi'i gwblhau, ac ar gael ar gyfer yr aelodau.
- Yr edrychwyd ar ffurfio consortiau fel rhan o ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr ac y lluniwyd canllawiau ar sut i wneud hyn, a beth yw'r ystyriaethau. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd busnesau'n awyddus ar y cyfan i ffurfio consortiau, a hynny oherwydd yr elfen o gystadleuaeth rhyngddynt.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan ofyn i'r Gwasanaeth adrodd yn ôl ar ganlyniad y peilot 'Caffael Arloesol – Methodoleg Caffael Gwerth Cymdeithasol', a hefyd casglu'r data fel sydd wedi ei godi yn ystod y cyfarfod, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ymhen y flwyddyn (neu pan fo'n amserol).**

## 6. PROSIECT CINIO AM DDIM

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion yr Adran Addysg i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd yr Aelod Cabinet Addysg ar y prosiect cinio am ddim mewn ysgolion.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun a rhoddodd yr Uwch Reolwr Ysgolion amlinelliad o gynnwys yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegwyd syndod bod canran y disgyblion sy'n dewis cinio am ddim dan y cynlluniau UPFSM (*Universal Primary Free School Meals*) ac EFSM (*Entitlement to Free School Meals*) mor isel (70% ym Medi a 66% yn Hydref) a nodwyd pryder y bydd ysgolion yn colli allan ar grantiau eraill oherwydd na fydd rhieni sy'n gymwys i hawlio cinio ysgol am ddim dan y cynllun EFSM yn gwneud hynny bellach, gan y bydd eu plant yn cael cinio ysgol am ddim beth bynnag.
- Bod y prosiect cinio am ddim mewn ysgolion i'w groesawu, a phwysleisiwyd pwysigrwydd dwyn pwysau gwleidyddol i sicrhau bod y swm y pryd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei amddiffyn, neu hyd yn oed ei godi, wrth i ni fynd i mewn i gyfnod o doriadau.
- Y dylid dathlu'r ffaith bod 1305 o blant UPFSM, na fyddai wedi derbyn cinio ysgol am ddim fel arall, wedi dewis cinio ysgol ym Medi, a bod hynny'n golygu bod gan y rhieni arian ychwanegol yn eu pocedi i'w wario'n lleol gobeithio, a thrwy hynny roi hwb i'r economi leol.
- At y dyfodol (gan dderbyn bod yr Adran yn brysur iawn ar hyn o bryd gyda'r gwaith o gyflwyno'r prosiect ar draws yr ysgolion), gallai fod yn fuddiol cynnal ymgynghoriad blynyddol gyda rhieni a phlant mewn ymgais i gynyddu'r ganran sy'n derbyn y prydau.
- Bod y prydau a ddarperir yn yr ysgolion yn gytbwys a maethlon, ond y gallai mwy o hyblygrwydd o ran y dewis o fwyd sydd ar gael fod yn fodd o gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn y cinio ysgol.
- Ei bod yn bwysig nad yw ansawdd y prydau'n dioddef o ganlyniad i gostau uwch cynhyrchu pryd bwyd.
- Croesawyd y bwriad i ymestyn y cynnig i Flwyddyn 2 erbyn Ionawr 2023.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Mai ffigwr cyfartalog ar draws holl ysgolion cynradd y sir oedd y 70% a'r 66%, a bod y ganran bron yn 100% mewn rhai ysgolion, gydag ysgolion eraill yn profi'n lawer mwy o her. Nodwyd ymhellach bod arian ar gael i benodi swyddog i edrych i mewn i'r rhesymau pam bod plant yn gwrthod cinio ysgol, ac y byddai'r gwaith yma yn canolbwyntio ar yr ysgolion hynny lle mae yna batrwm o blant sydd â hawl i ginio am ddim, ond ddim yn ei gymryd.
- Bod Llywodraeth Cymru wedi adnabod swm y pryd o £2.90 ar gyfer pob disgybl ar gyfer y wedd gyntaf, a hynny'n seiliedig ar gyfartaledd y disgyblion sy'n bwyta cinio ysgol yn y sir. Bwriedid ail-edrych ar y ffigwr yma ar gyfer yr ail wedd, fyddai'n digwydd ar ôl y Pasg. Gan fod y gost o gynhyrchu prydau mewn ysgolion wedi cynyddu'n sylweddol ers pan drafodwyd y cynllun gyntaf, roedd adolygiad ar y gweill o'r swm y pryd y bydd awdurdodau'n derbyn, ond nid oedd y trafodaethau hynny wedi dod i ben eto.
- Bod yr angen i lywodraeth leol ariannu unrhyw ran o'r cynllun neu beidio yn ddibynnol ar ddigonolrwydd y swm y pryd fydd yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob awdurdod. Roedd yn llawer haws a rhatach cynhyrchu pryd bwyd mewn dinas nag mewn siroedd gwledig, lle mae yna nifer fawr o ysgolion bach wedi'u gwasgaru ar draws ardal eang, ac felly roedd yn rhaid aros i weld a fydd y swm y pryd fydd yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i ddiwallu'r costau yng Ngwynedd.
- Nad oedd yna gapasiti na chyllid ar gael i ymestyn y cynllun i'r sector uwchradd, ond petai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi bwriad i wneud hynny a'i ariannu, yna byddai'r Gwasanaeth yn sicr yn ei groesawu. Er hynny, ni fyddai'r sefyllfa mor rhwydd yn yr uwchradd, gan fod disgyblion uwchradd yn cael dewis o fwydydd gwahanol a nifer llai ohonynt yn cymryd cinio ysgol beth bynnag. Hefyd, byddai'r gwaith o adnabod anghenion ysgolion o ran gofod paratoi bwyd a gofod bwyta yn heriol iawn mewn ambell ysgol uwchradd.
- Bod angen edrych ar y darlun ehangach er mwyn ceisio deall pam bod plant yn dewis peidio cymryd cinio ysgol, ac i weld oes yna newidiadau syml y gellir eu gwneud i wella'r sefyllfa, e.e. deellid bod plant cinio ysgol a phlant bocs bwyd yn cael eu rhoi i eistedd ar wahân mewn un ysgol, ac felly bod rhai plant yn mynnu bocs bwyd er mwyn cael eistedd hefo'u ffrindiau. Nodwyd ymhellach ei bod yn fwriad gan yr Adran wneud darn o waith mawr a phwysig o ran edrych ar wir gost anfon plant i'r ysgol, a chredid y byddai'r gwaith hwn yn taflu goleuni ar yr holl gostau cudd sy'n mynd ymlaen yn y cefndir.
- Ar brydiau'n ddiweddar, bod cyflenwyr bwydydd ysgolion wedi methu cyflenwi rhai o'r bwydydd oedd wedi'u rhestru yn y cytundeb gyda'r Cyngor, ac wedi cyflenwi bwydydd ychydig yn wahanol yn eu lle. Yn sicr, dylai'r bwydydd hynny fod o'r un safon â'r bwydydd arferol, ac yn bodloni'r rheoliadau o safbwynt maeth, ac ati.
- O ran staffio, bod yr Adran yn dysgu o brofiad y tymor hwn o safbwynt faint o blant sy'n derbyn y pryd am ddim, ac efallai bod y canrannau'n wahanol mewn gwahanol ysgolion, a hynny wedyn yn effeithio ar faint o staffio ychwanegol sydd ei angen. Fodd bynnag, roedd cyflwyno'r cynllun yn raddol yn rhoi cyfle i'r Adran ddeall y patrymau'n well yn y gwahanol ysgolion. Byddai'r staffio ychwanegol yn gyfuniad o ychwanegu at oriau staff presennol lle bo hynny'n bosib', ynghyd â rhai penodiadau o'r newydd, a byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu o fewn y gwasanaeth yn y mwyafrif o'r achosion. Fel mewn sawl gwasanaeth arall, roedd llenwi'r swyddi yn profi'n her, ond yn hytrach na dibynnu ar hysbysebion yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn unig, roedd yr Adran hefyd yn cydweithio â chwmni sy'n arbenigo ar gael pobl yn ôl i'r gweithle.
- Y byddai'r ysgolion yn barod i gynnig cinio am ddim i bob plentyn Blwyddyn 2 yn Ionawr 2023, a phob plentyn cynradd ym Medi 2023. Roedd y gwaith o wneud estyniadau i rai ysgolion yn parhau, ac eraill yn disgwyl i offer gael ei osod. O ran ysgolion sydd heb ofod cynhyrchu bwyd, nid oedd bwriad i greu ceginau o'r newydd, a byddai'r bwyd yn parhau i gael ei gludo i'r ysgolion hynny.

Ar ddiwedd y drafodaeth, nododd y Pennaeth Addysg fod y prosiect hwn wedi bod yn enghraifft dda o weithio trawsadrannol, yn cael ei arwain gan yr Aelod Cabinet Addysg a'r Aelod Cabinet Tai (sy'n arwain ar faterion Eiddo), a diolchodd i'r Tîm Eiddo, sydd wedi gweithio'n agos gyda'r Uwch Reolwr Ysgolion a'r Tîm. Nododd ymhellach:-

- O ran y sylw gan aelod bod angen rhoi pwysau gwleidyddol o safbwynt parhau i gyllido'r cynllun yn briodol, bod y prif swyddogion addysg hefyd yn dwyn pwysau rheolaidd ynglŷn â hyn yn eu cyfarfodydd cenedlaethol.
- Y cytunid â'r sylw gan aelod bod angen ychydig mwy o hyblygrwydd o ran y dewis o fwyd er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd cinio ysgol, ac er bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r egwyddor glodwiw o ddarparu prydau poeth maethlon o safon, credid y byddai hefyd yn bosib' creu byrbrydau sydd yr un mor faethlon ac o safon.

I gloi, dymunwyd yn dda i'r Uwch Reolwr Ysgolion ar ei ymddeoliad yn y flwyddyn newydd, a diolchwyd iddo am ei holl waith ar hyd y blynyddoedd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chyflwyno diweddariad i'r pwyllgor pan fydd y cynllun wedi ymestyn ar draws y sector cynradd, gyda sylw penodol ar y gwaith sy'n cael ei wneud i godi'r niferoedd ac i edrych ar y rhesymau pam nad yw rhai disgyblion yn cymryd cinio ysgol, a sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i ansawdd y bwyd, gan hefyd geisio cadw'r budd yn lleol.**

## 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL ADDYSG 2021-22

### (A) ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2021-22

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun a chyflwynwyd Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar gyfer 2021-22.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Gan gyfeirio at dudalen 46 o'r rhaglen, nodwyd er bod cyfeiriad at "*wneud gwaith dilynol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau fod y drefn [Categoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg] yn datblygu ac yn gwreiddio er mwyn cyflawni uchelgais Gwynedd yn y maes hwn*" nad oedd uchelgais Gwynedd yn cael ei ddiffinio yng nghyd-destun y categoreiddio, a bod angen eglurder ar hynny.
- Eto, gan gyfeirio at dudalen 46 o'r rhaglen, nodwyd bod rhai o'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf yn arwynebol, gan eu bod yn cyfeirio at '*sicrhau'* gwahanol gamau, ond ddim yn egluro sut y byddai'r camau hynny yn cael eu gweithredu. Mynegwyd pryder ein bod am weld llithriad pellach yn y nifer sy'n astudio pynciau Cymraeg yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), ac awgrymwyd ein bod mewn sefyllfa wannach heddiw nag oeddem yn 2016.
- Mynegwyd pryder bod y Cyfrifiad yn dangos gostyngiad yn y niferoedd sy'n bathu'r Gymraeg o oedran cynnar, ac awgrymwyd y dylai'r Cyngor fod yn trochi'r holl blant sydd ddim yn ddigon rhugl yn y Gymraeg, yn hytrach na throchi hwyrddyfodiaid yn unig.
- Nodwyd bod dadgofrestru yn broblem fawr, yn enwedig ers y cyfnod Cofid, a holwyd a fyddai'n bosib' i'r pwyllgor dderbyn data ar hyn, a chael cyfle i graffu pam bod pobl ifanc a theuluoedd yn dewis dadgofrestru.
- Nodwyd bod yna lawer o gwmnïau tacsis o Ddwyfor yn hebrwng plant o gwmpas ysgolion Arfon. Deellid bod yna brinder cwmnïau tacsis yng Ngwynedd, ond o bosib', bod yna gwmnïau bach fyddai'n awyddus i dendro, ond angen cefnogaeth o ran deall y broses. Awgrymwyd y gellid edrych ar hyn yn drawsadrannol gyda'r Adran Economi, fel dull o gefnogi busnesau bach a lleihau costau ac ôl troed carbon ar yr un pryd.
- Mynegwyd pryder bod yr ysgolion arbennig dros eu capasiti'n barod, gyda Hafod Lon eisoes 10% uwchlaw ei chapasiti, a gofynnwyd am drafodaeth ar hyn yn fuan iawn, gan y bydd y galw yn parhau i gynyddu. Awgrymwyd hefyd y dylid edrych i mewn i'r rhesymau dros y cynnydd yn y galw.

- Nodwyd bod adroddiadau blynyddol yn son am y pethau da a ddim yn son am y pethau problemus a heriol, a'i bod yn anodd craffu dogfen sy'n tueddu i ganmol yn unig.
- Nodwyd bod y tocyn teithio ôl-16 yn syniad gwych, ond ei bod yn bwysig bod y trafodaethau'n digwydd gyda'r cwmnïau trên a bysus i sicrhau bod y gwasanaethau'n cyrraedd y sefydliadau addysg ar amser.
- Gan gyfeirio at y sylw yn yr adroddiad ynglŷn â phlant yn colli'r gallu i lefaru i bob pwrpas yn sgil cyfnod y pandemig, nodwyd y pryderid am yr effaith hirdymor ar y plant yma, a phwysleisiwyd y dylai rhywun fod yn edrych ar yr hyn mae'r plant wedi'i golli'n gyffredinol oherwydd Cofid.
- Nodwyd ei bod yn dorcalonnus gweld rhieni Cymraeg yn siarad Saesneg hefo'u plant, gan fod hyn yn hollol annheg â'r plant, ac yn torri i lawr ar eu cyfleoedd gwaith yn yr ardal yma yn y dyfodol, a nodwyd y mawr obeithid bod yr ysgolion yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni i bwysleisio pwysigrwydd trosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf.
- Nodwyd (*ar ran Manon Williams, Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon, oedd yn methu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn*), er y dylai penderfyniadau'r Panel sy'n trafod ceisiadau am gynllun datblygu unigol gael eu rhannu gyda'r rhiant a'r ysgol o fewn pythefnos o ddyddiad y panel, nad oedd hynny'n digwydd mewn nifer o achosion, a bod rhieni'n disgwyl am fisoedd am benderfyniad, sy'n achosi pryder mawr iddynt a chur pen mawr i'r ysgolion.
- Nodwyd nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at brinder cymorthyddion, na'u pwysigrwydd i'r gyfundrefn addysg yn ei gyfanrwydd.
- Nodwyd ei bod yn bleser gallu datgan bod athrawon yn canmol y gefnogaeth a'r cyngor a dderbynnir gan yr Adran Addysg, a gobeithid mai dyma'r neges yn gyffredinol ar draws holl ysgolion y sir.
- Nodwyd, o ran y trochi, bod prosiect Aber Rwla Anni Llyn yn enghraifft o Wynedd yn arloesi ac yn arwain o ran dysgu iaith.
- Croesawyd y ffaith bod iechyd a lles meddyliol yn cael sylw haeddiannol.
- Awgrymwyd, yn sgil derbyn negeseuon cychwynnol ym mis Chwefror, ei bod bellach yn amser i'r pwyllgor dderbyn diweddariad ar y prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon.
- Mynegwyd dymuniad i aelodau'r pwyllgor dderbyn copi o ganfyddiadau'r holiadur i gasglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ym Meirionnydd ar yr heriau posibl sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal, a hefyd yr holiadur i ganfod barn dysgwyr, staff, rhieni a phenaethiaid fydd yn llywio cyfeiriad prosiect Cydweithio Meirionnydd i'r dyfodol.
- Nodwyd bod y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith yn ddogfennau hynod swmpus a dyheadol, ac nad oes gan y Cyngor berchnogaeth ohonynt bellach. Gan hynny, holwyd a fyddai'n bosib' darparu briff mwy clir ar gyfer yr ysgolion, fel rhyw fath o reolau drws tân, yn nodi'r gofynion sydd arnynt yn gwbl glir a diamwys.
- Mynegwyd pryder bod ymddygiad plant wedi dirywio'n arw ers y pandemig, a bod y straen o orfod ymdopi â sefyllfaoedd hynod heriol yn arwain at absenoldebau salwch ymysg y staff, sydd, yn ei dro, yn cynyddu'r galw am athrawon llanw, sy'n costio mwy.
- Mynegwyd pryder y bydd problemau recriwtio athrawon yn arwain at ddyblu maint dosbarthiadau, a fydd, yn ei dro, yn ei gwneud yn fwy anodd cynnal gwersi yn uniaith Gymraeg.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod diogelu wedi bod yn flaenoriaeth gan yr Adran yn ystod y cyfnodau clo, pan nad oedd plant yn mynychu'r ysgolion, a bod yr ysgolion i gyd wedi gwneud gwaith clodwiw iawn yn cysylltu bron, os nad, yn ddyddiol, gyda'r plant mwyaf bregus. Cadarnhawyd bod y niferoedd plant sydd ddim yn mynychu ysgol am ba bynnag reswm ar gynnydd, a bod yna 2 garfan o blant yma, sef y rhai sydd ar gofrestrau ysgolion a'u presenoldeb yn is nag a ddymunid iddo fod am amrywiol resymau, a hefyd y rhai lle mae rhieni wedi dewis dysgu eu plant gartref eu hunain. Nodwyd bod y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad wedi grymuso'r timau sy'n rhoi cefnogaeth i'r rhai sydd ddim yn mynychu ysgol yn ddigon rheolaidd drwy'r

Tîm Lles, ac y derbyniwyd grantiau i gryfhau'r gwasanaeth lles, gyda threfn gadarn ar gyfer ymateb i'r anghenion. Yn amlwg, roedd y tîm yma'n ymateb i anghenion diogelu, oedd yn fwy niferus, gan eu bod yn delio â mwy o achosion a'r achosion hynny yn dueddol o fod yn fwy dwys. O ran plant sydd wedi dadgofrestru, roedd swyddogion yn ymweld â'r cartref, gyda chaniatâd y rhieni, i sicrhau diogelwch y plentyn, ac roedd yna enghreifftiau o waith arbennig gan athrawon i sicrhau diogelwch plant. Yn gyffredinol, gyda mwy o blant adref, roedd y risg o ran diogelu yn uwch, ond roedd y tîm yn ymdopi oherwydd y newidiadau i'r dulliau o ymateb i'r sefyllfa. Yn amlwg, dymunid gweld mwy o blant yn yr ysgolion, ond roedd yn heriol i ysgolion gynyddu presenoldeb ar hyn o bryd, gydag amrywiol ffactorau yn bwydo i mewn i'r her yma. Nodwyd ymhellach y byddai'r Gwasanaeth yn hapus i ddod â mwy o wybodaeth i'r pwyllgor ynglŷn â'r tîm sy'n cefnogi teuluoedd sy'n addysgu eu plant gartref, y cynllun gwaith, effaith hynny hyd yma a'r berthynas sydd wedi'i chreu hefo'r teuluoedd. Nodwyd hefyd bod y gwasanaeth wedi cychwyn edrych ar y rhesymau pam bod plant yn dadgofrestru er mwyn ceisio atal ac adnabod ardaloedd a chategorïau o bobl ifanc sy'n fwy tebygol o ddadgofrestru.

- O ran ymddygiad plant ers y cyfnod clo, bod y data'n dangos ychydig o gynnydd yn niferoedd y gwaharddiadau, a bod hynny'n dueddiad cenedlaethol yn dilyn Cofid. Gwelir mai'r plant hynny oedd yn cael anhawster cydymffurfio â threfn ysgol oedd wedi dadrithio fwyaf o'r profiad ysgol drwy fod gartref am gyfnodau hir, ac roedd yr ysgolion yn gweithio'n galed iawn i adennill hyder plant a phobl ifanc i fanteisio ar eu haddysg. Roedd y sefyllfa'n rhoi straen ar y Gwasanaeth Cynhwysiad, ond roedd y tim yn ymdopi'n dda, ar y cyd â'r ysgolion, i fynd i'r afael â hynny.
- Bod yr Adran yn edrych ar faes y Gymraeg yn barhaus. Roedd ffigurau'r Cyfrifiad yn dangos bod canran y siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru yn is na 10 mlynedd yn ôl, ond debyg bod y gostyngiad yng Ngwynedd yn llai nag mewn siroedd eraill. Er hynny, roedd rhaid annog defnydd cymdeithasol o'r iaith a'i normaleiddio. Roedd Gwynedd yn gwneud gwaith da yn y maes, ond petai canfyddiadau'r data yn dangos bod yna grŵp oedran penodol angen mwy o sylw, byddai'r Adran yn ail-edrych ar y gweithdrefnau.
- O ran uchelgais Gwynedd yng nghyd-destun categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, credid bod hyn yn cael ei ddal yn y CSGA, ac o ran unrhyw lithriad i'r dyfodol, neu sefydlu rhyw fath o gynllun gweithredu yn gyfochrog â'r datganiad neu'r dyhead, bod llawer o hynny eto yn y CSGA, sydd y tu ôl i'n dyheadau, neu'n uchelgais. Yn amlwg, roedd angen bod yn uchelgeisiol yma, ac roedd llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynllun wedi'u hymgorffori. Amlygwyd hefyd bod y Gweinidog dros y Gymraeg ac Addysg wedi nodi'n ddiweddar pa mor hapus ydoedd gyda'r cynllun ac uchelgais Gwynedd. Nodwyd ymhellach bod hwn yn adroddiad sy'n edrych yn ôl hefyd, yn hytrach nag yn amlygu beth yw'r camau gweithredu rŵan, a phwysleisiwyd yr angen i'r uchelgais gael ei meddiannu a'i chefnogi gan bawb. Credid bod yr uchelgais yn bodoli, a chytunid bod angen manylu (er nad yn yr Adroddiad Blynyddol, o bosib') ar y camau gweithredu yn sgil y categoreiddio. Pwysleisiwyd yr angen i bob ysgol symud ymlaen, a waeth pa mor gadarn yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion hynny, rhaid cynllunio ar wella hynny o ran y cwricwlwm, yr agweddau ffurfiol ac anffurfiol. Nodwyd bod y Cyfrifiad yn amlygu bod angen edrych ar yr holl ystod oedran sy'n dod dan y system addysg, ac er bod dipyn o ffocws gan Wynedd ar yr uwchradd ar hyn o bryd, roedd angen sicrhau bod y cynnydd ar draws y sector i gyd.
- Y llwyr gytunid â'r sylw ynglŷn â throchi, a bod gan y Cyngor ddyletswydd i drochi plant, boed y plant hynny'n hwyr-ddyfodiaid neu beidio. Yng Ngwynedd roedd hynny'n digwydd yn naturiol gan fod y ddarpariaeth yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod sylfaen ymhob ysgol, ac eithrio un. Nodwyd bod gwaith y canolfannau iaith wedi bod yn amhrisiadwy ers degawdau, ond roedd ail-strwythuro'r gyfundrefn wedi arwain at fwy o hyblygrwydd a chynnydd mewn capasiti, sy'n golygu y bydd mwy o drochi yn digwydd yn gynt. Gwelid ceisiadau niferus yn cyrraedd gan ysgolion ar gyfer plant sydd wedi bod yn derbyn eu haddysg yng Ngwynedd, ond bod ganddynt addysg fylchog am wahanol resymau, gan gynnwys y cyfnod Cofid. Nodwyd

ymhellach y darparwyd hyfforddiant ar egwyddorion trochi cynnar llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen ar gyfer athrawon, staff a chymorthyddion, ac y bwriedid parhau gyda'r ddarpariaeth i hyfforddi ac i gydweithio gydag ysgolion yng nghyd-destun trochi cynnar, a hefyd yng nghyd-destun trochi hwyr. Cyfeiriwyd hefyd at y cynllun ym Mangor, lle mae'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth gyda 3 ysgol er mwyn ehangu'r ddarpariaeth. Nodwyd, yn sgil derbyn grant dros 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru, y byddai athrawes lawn-amser yn cael ei chyflogi i gefnogi staff yr ysgolion yn nalgylch Bangor i weithio ar egwyddorion trochi cynnar yn y cyfnod sylfaen. Byddai hyn yn cyfrannu at ddeilliannau o fewn y CSGA, ac yn cryfhau cynlluniau a chefnogaeth ac adnoddau o fewn yr ysgolion yma i hyrwyddo'r Gymraeg fel cyfrwng, ac wrth gwrs y defnydd cymdeithasol.

- Bod y broses dendro ar gyfer cludiant ysgolion yn broses agored sy'n rhaid ei dilyn, ac na ellid ei chyfyngu i ardal benodol. Roedd yna brinder cwmnïau tacsis mewn rhai ardaloedd, roedd angen y tacsis i gyd ar yr un pryd ar gyfer y gwaith, ac nid oedd pob un cwmni yn dewis tendro. O bosib' y gellid edrych ar y patrwm, ond roedd yn anochel weithiau bod cytundebau'n cael eu lleoli gyda chwmni sydd beth amser i ffwrdd.
- Bod yr Adran yn llwyr ymwybodol o'r problemau capasiti yn yr ysgolion arbennig, ac yn gweithio ar ddatrysiadau tymor byr a thymor hwy, oedd yn mynd i gymryd tipyn o waith cynllunio. Roedd yr anghenion wedi dwysau hefyd, ac roedd angen cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y plant mwy dwys yn y prif lif, yn ogystal ag edrych ar sut mae'r ysgolion prif lif ac arbennig yn cydweithio gyda rhai plant. Yn hanesyddol, oherwydd cyflwr yr hen Ysgol Hafod Lon, roedd rhieni wedi bod yn tueddu i ddewis y prif lif i'w plant, er efallai y byddai rhywun wedi dadlau drwy ddatganiad y dylai'r plant hynny fod wedi'u lleoli mewn ysgol arbennig. Erbyn hyn, fodd bynnag, oherwydd yr adnoddau gwych a gynigid yn yr Ysgol Hafod Lon newydd, roedd yna lai o waith perswadio ac o weithio drwy'r stigma o riant ddim eisiau lleoli eu plentyn mewn ysgol arbennig. Erbyn heddiw hefyd, roedd yna blant yn byw, na fyddai wedi byw hefo'u cyflyrau ers talwm, ac er bod hynny'n rhywbeth i fod yn eithriadol ddiolchgar amdano, roedd hefyd yn ychwanegu pwysau ar y gyfundrefn.
- Bod yna lawer o waith yn mynd rhagddo drwy'r Siarter Iaith Cynradd a'r Strategaeth Iaith Uwchradd i ddwyn perswâd ar rieni i siarad Cymraeg gyda'u plant, a hynny'n benodol drwy dynnu sylw at y manteision economaidd i'r plentyn maes o law.
- Er yn derbyn y sylw ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau cludiant yn cyrraedd y sefydliadau addysg ar amser, bod hynny'n ymwneud ag isadeiledd cludiant y cwmnïau trenau a bysus, a bod llawer o hynny allan o ddwylo'r awdurdod. Er hynny, roedd trafodaethau yn digwydd gyda Thrafnidiaeth i Gymru.
- Y derbynnid bod yr adroddiad blynyddol yn swnio fel petai'r Adran yn canmol ei hun, ond blas ydyw yn unig o'r hyn a wnaethpwyd ar draws y flwyddyn, ac roedd yr holl feysydd yn derbyn sylw drwy'r drefn herio perfformiad, sy'n bwydo i mewn i adroddiad blynyddol yr Aelod Cabinet.
- Bod ymyraethau wedi'u rhoi mewn lle ar gyfer y cohort o blant sydd wedi colli allan oherwydd Cofid, ac y byddai'r plant yma'n cael eu mapio drwy gydol eu hoes ysgol er mwyn sicrhau nad oes llithriad ac i wneud yn siŵr bod y plant yma'n cyrraedd eu llawn botensial.
- O ran y panel sy'n trafod ceisiadau am gynllun datblygu unigol, mai un o ddangosyddion y Gwasanaeth ADY a CH yw sicrhau bod ysgol a rhiant yn derbyn ymateb priodol o fewn pythefnos o wneud cais am gyfeiriad. Nodwyd bod y dangosydd yn dangos perfformiad o 100%, ac mai'r unig eithriadau i hyn oedd Mai a Mehefin, lle mae wythnos Sulgwyn yn golygu wythnos ychwanegol. Yr unig adegau lle byddai'n cymryd mwy o amser fyddai mewn achos mwy cymhleth, e.e. cais am leoliad gwahanol neu riant yn gofyn am rywbeth gwahanol i'r ysgol, neu fod y Panel Cymedroli angen mynd yn ôl at yr ysgol am ragor o wybodaeth i gefnogi'r cais. Nodwyd hefyd bod yr ysgolion mewn cyswllt parhaus gyda'r Swyddog Ansawdd ynglŷn â cheisiadau sydd wedi dod i mewn, neu'n disgwyl gwybodaeth bellach. Cadarnhawyd y byddai'r ymateb hwn yn cael ei anfon yn ysgrifenedig at Manon Williams yn ei habsenoldeb o'r cyfarfod hwn.

- Bod prinder cymorthyddion yn broblem gynyddol ledled Cymru, ond bod Gwynedd yn arwain y gad yn y maes. Roedd y Pennaeth Addysg yn eistedd ar ddau gorff cenedlaethol sy'n edrych i mewn i hyn, ac wedi gwyntyllu'r mater hwn ar ran cyfarwyddwyr addysg Cymru mewn cyfarfod diweddar gyda'r Llywodraeth yn bresennol. Cydnabyddid nad oedd y gyfradd gyflog yr uchaf, ond roedd hynny'n ddarostyngedig i drafodaethau ar lefel genedlaethol ayb. Roedd y cytundebau'n aml yn rhai amser tymor yn unig, a'r swyddi eu hunain yn 15-20 awr efallai, a phawb yn rhwydo yn yr un pwll am yr un bobl gyda'r un sgiliau. Gan hynny, roedd yr Aelod Cabinet wedi gofyn i'r Adran edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno elfennau ychwanegol i'r swydd, e.e. dyletswyddau yn y sector gofal oedolion, cynlluniau chwarae dros yr haf, ayb, fel bod y swydd yn ymdebygu fwy i swydd lawn-amser 37 awr a gafael ariannol arni. O ganlyniad i drafodaethau'r cyrff cenedlaethol, cafwyd ar ddeall bellach bod y Llywodraeth yn fodlon edrych i mewn i hyn, ac efallai ariannu peilot.
- O ganlyniad i brysurdeb gwleidyddol yr Etholiadau a'r broses o sefydlu Cyngor newydd, ac ati, nad oedd fawr o'r trafodaethau ynglŷn â phrosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon wedi digwydd ers Chwefror, ond wrth ail-afael yn yr agenda rŵan, byddai'r Adran yn fwy na bodlon darparu'r sylwadau ynglŷn â'r canfyddiadau i aelodau'r pwyllgor.
- Y byddai'r Adran yn hapus i rannu canlyniadau holiaduron Cydweithio Meirionnydd. Nodwyd bod recriwtio yn her ar bob lefel, ac efallai bod angen meddwl yn llai traddodiadol, gan ystyried a oes modd rhannu adnoddau a chydweithio, yn hytrach na bod pawb yn ceisio ail-greu'r olwyn.
- Y gellid darparu briff ar gyfer yr ysgolion, yn amlygu gofynion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith mewn ffordd glir a diamwys. Roedd y penaethiaid yn gyffredinol yn teimlo bod angen diwygio cwestiynau'r Siarter Iaith i'w gwneud yn fwy perthnasol i heddiw, ac er mwyn cael perchnogaeth ohonynt, ac roedd Gwenan Ellis Jones, Cydlynydd Siarter Iaith, eisoes yn ymgynghori â'r Llywodraeth ar hynny. O ran yr uwchradd, nodwyd bod e-bost eisoes wedi ei anfon at yr ysgolion i geisio rhoi arweiniad, heb orlethu, ac y byddai Sian Eirug, Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd, yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r ysgolion ar hyn.
- O ran problemau recriwtio a salwch mewn gwahanol rannau o'r sir, megis De Meirionnydd, bod yr Adran yn cefnogi'r ysgolion hyd eithaf ei gallu i ymdopi.
- Er bod yr Adran wedi gobeithio y byddai Canolfan Iaith Tywyn yn barod erbyn Ionawr 2023, nad oedd y ganolfan wedi'i hadeiladu, yn anffodus, oherwydd oedi o ran yr elfen gynllunio. Edrychwyd ar y posibilrwydd o leoli'r ganolfan dros dro yn Ysgol Tywyn, ond nid oedd gofod digonol yno, gan fod nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi cynyddu. Roedd Neuadd Tywyn yn opsiwn arbennig o dda o ran cyfleusterau, ond roedd yr Adran yn chwilio am leoliad ar dir ysgol, gan mai'r pennaeth ysgol yw'r rheolwr safle yng nghyd-destun diogelwch. Fel cyfaddawd, derbyniwyd cynnig Pennaeth Ysgol Bro Idris, Dolgellau i leoli'r ganolfan dros dro am dymor neu ddau yn yr ysgol honno. Nodwyd bod nifer wedi cofrestru eisoes ar gyfer mynychu'r Ganolfan Iaith, a mawr obeithid y byddai'r ganolfan newydd yn Nhywyn yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, os nad ynghynt.
- O ran blaenoriaeth y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau ar gyfer y cyfnod nesaf i gydweithio gyda'r ysgolion i fynd yn gwbl ddi-arian, cadarnhawyd y rhoddir ystyriaeth i sefyllfa rhieni heb gyfrif banc.
- Ar gais y Prif Weithredwr, bod un o'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol wedi cytuno i gydweithio gyda'r Pennaeth Addysg a Swyddog Addysg Ardal Arfon i edrych ar draws y Cyngor er mwyn gweld sut orau i gwrdd â'r gorwariant ar y gyllideb cludiant addysg.

**(B) ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2021-22**

Croesawyd swyddogion GwE i'r cyfarfod a chyflwynwyd Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer 2021-22.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd ei bod yn amhosib' craffu adroddiad o'r maint yma, ac nid dyma sut y dylai'r pwyllgor graffu gwaith GwE.
- Mynegwyd pryder ynglŷn ag ymddygiad plant tuag at athrawon, a nodwyd y dylai darpar athrawon gael eu hyfforddi ar sut i ddelio ag ymddygiad heriol, neu ni fydd pobl ifanc yn awyddus i ymuno â'r proffesiwn.
- Ei bod yn anodd iawn bellach i lywodraethwyr wybod beth yw'r gwaelodlin a mesur safonau yn sgil y cyfnod Cofid, a chredid bod yna rôl i GwE i'w cefnogi a'u cynorthwyo i ail-afael yn eu rôl.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Tra'n derbyn bod yr adroddiad yn swmpus, bod yna adroddiadau mwy penodol yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn ar gais yr aelodau, ond bod yr Adroddiad Blynyddol yn dwyn y cwbl at ei gilydd mewn un lle. Petai'r aelodau'n dymuno canolbwyntio ar themâu penodol, neu drafod elfennau mwy penodol mewn gweithdai, byddai GwE yn fwy na pharod i hwyluso hynny.
- O ran cyfarch y risg yng nghyswllt anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth, yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg, nodwyd bod llawer o son am effaith y cyfnod Cofid ar ddisgyblion, ond o bosib' nad oedd yr effaith ar oedolion wedi'i lawn sylweddoli. Roedd uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth yn flinedig iawn, ac roedd chwarter y prif athrawon uwchradd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Hefyd, wrth i bennaeth adael, roedd dirprwy neu berson arall yn camu i mewn i'r rôl, a'r rôl honno wedyn yn wag am gyfnod. Nodwyd hefyd, yn ystod y cyfnod clo, y bu'n rhaid i benaethiaid roi elfennau mwy arweinyddol y gwaith o'r neilltu, a chanolbwyntio ar reoli, diogelu a sicrhau bod pawb yn saff, ond bellach roedd rhaid iddynt gamu nôl i'r rôl arweinyddol, neu gamu i mewn i'r rôl honno am y tro cyntaf yn achos penaethiaid mwy newydd. Hefyd, o ran recriwtio, roedd y pwll Cymraeg yn llai, roedd y byd addysg yn wynebu'r newidiadau mwyaf ers 40 mlynedd, ac roedd yn gyfnod ariannol dyrys iawn. Yn wyneb hyn oll, cwestiynid a oedd y swyddi arweinyddol yma mor ddeniadol i gymaint o bobl bellach. O ran gallu dwyieithog staff, neu allu staff yn y Gymraeg ar draws y rhanbarth, credid bod yna gydbwysedd, ond o bosib', wrth sicrhau bod yr arlwy yn gwbl ddwyieithog, bod y Gwasanaeth yn tynnu o bwll y Gogledd Orllewin i raddau helaeth. Roedd secondiadau tymor byr yn un ffordd o gwmpas hynny, neu brynu amser pobl i ddiwallu bylchau os oes yna ofynion cyfrwng penodol yn codi.
- Bod y risg o ran cysondeb ac ystod y Daith Ddiwygio yn cyfeirio at gysondeb ar sawl lefel. Roedd y Gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda'r Athro Donaldson yn rheolaidd i ddeall y gofynion a chyfleu'r negeseuon ar draws y rhanbarth. Credid, fodd bynnag, bod y Llywodraeth yn dueddol o weithio ar ddwy haen, sef y maes polisi, a hefyd yn y maes sy'n gweithredu'r polisi, ac ar adegau roedd mwy nag un person yn cyfrannu at y dehongli yma. Gan hynny, roedd rhaid cwestiynu a oedd y negeseuon yn gyson drwy'r amser ac yn cael eu ymarferoli ddigon, ac o ran y Gymraeg, a oeddent yn cael eu ymarferoli ddigon ar gyfer ymarferwyr yn ein hysgolion? Roedd rhaid canmol pa mor dda roedd y sector gynradd a tua 6 o ysgolion uwchradd wedi cydio yn y cwricwlwm newydd, ac yn cynnig profiadau lleol, pwrpasol i'w disgyblion, ac roedd y Gwasanaeth yn gweithio gyda'r ysgolion i rannu'r ymarferion ymysg ei gilydd fel y gellir gweld beth yw ystod y profiadau maen nhw'n gallu cynnig, ac roedd y Gwasanaeth yn eu cefnogi hefyd yn y systemau sy'n dal effaith, ac yn dal cynnydd dysgwyr.
- Bod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor yng nghyswllt hyfforddiant cychwynnol athrawon. Roedd yna brinder athrawon mewn rhai meysydd penodol fel mathemateg a ffiseg ers blynyddoedd, ac roedd angen mwy o drafodaeth ar hyn, gan o bosib' adnabod y carfannau o ddarpar athrawon sydd eu hangen, yn hytrach na throi allan gormod sydd wedi arbenigo yn yr un pwnc. Nodwyd ymhellach bod delio ag ymddygiad heriol yn rhan o hyfforddiant athrawon, ond y gellid cyfleu'r

neges i'r Brifysgol ynglŷn â phwysigrwydd medru sicrhau disgyblaeth gadarn mewn dosbarth.

- Bod newid rôl yr Ymgynghorwyr Her i Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgolion a'r gwasanaeth, a bod y gwasanaeth bellach yn diwallu anghenion ysgolion unigol yn llawer iawn gwell nag yn y gorffennol.
- O ran y cynlluniau Carlam, ac yn sgil gwaith gyda'r Brifysgol i adnabod yr elfennau sy'n cael y mwyaf o effaith, y bu'r Gwasanaeth yn cefnogi ysgolion i ail-sefydlu beth yw gwaelodlin y disgyblion. Nodwyd y byddai'r Gwasanaeth yn hapus i ddod ag adroddiad neu roi cyflwyniad i'r pwyllgor i ateb y cwestiwn penodol. Nodwyd ymhellach yr effeithiwyd ar sgiliau sylfaenol yn y 18 mis diwethaf, a bod hyn wedi effeithio ar y Gymraeg lle nad yw'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd, a hefyd mewn pocedi mwy difreintiedig. Nodwyd ymhellach bod yna garfannau sy'n dod at ei gilydd yn yr ysgolion, fwy mewn rhai dosbarthiadau nag eraill, ond unwaith eto, bod rhaid bod yn benodol iawn o ran y math o gefnogaeth sydd ei hangen ar y disgyblion a'r athrawon wrth roi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn eu lle.
- Petai yna unrhyw beth penodol sydd ei angen ar lywodraethwyr o safbwynt ail-gydio yn eu rôl yn dilyn y pandemig, y byddai'r Gwasanaeth yn gwneud yn siŵr bod yna weithdy neu arweiniad yn cael ei roi iddynt.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau a gofyn i'r Adran Addysg a GwE gymryd sylw o unrhyw sylwadau a godwyd yn y cyfarfod hwn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 2.35 y.h.

**CADEIRYDD**